# ARGYMHELLION PWYLLGOR ADNODDAU

29ain o Fehefin 2022

ARGYMHELLION PWYLLGOR ADNODDAU
NOS Fercher 29ain o Fehefin 2022
Ar Lein AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

**Presennol**:
Cynghorwyr:
Rory Francis – Cadeirydd
Dafydd Dafis
Glyn Daniels
Mark Thomas
Alun Jones

**Ymddiheuriad**:
Cynghorwyr:
DIM

**1. Derbyn Ymddiheuriadau**
Dim

**2. Datganiad Buddiant Personol**
Dim.

**3. Cyfrifon – trafod cyfrifon 2021/2022 yn dilyn arolygiad gan yr archwiliwr mewnol.**

Bu i'r pwyllgor edrych dros y Datganiad Blynyddol ar gyfer 2021/2022, ac Adroddiad Archwilad Mewnol, sef Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, a noder:

**"Barn yr Archwiliad**
**Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Tref Ffestiniog ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:**

- **Balansau y Cyngor wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y flwyddyn, ac yn ymddangos yn ormodol**
- **Ni chyhoeddodd y Cyngor adroddiad ar y cynnydd gwnaethpwyd i gyflawni' r amcanion lleol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun llesiant lleol. Fodd bynnag, mae trefniadau wrth law i wireddu hyn".**

**Argymhelliad:** Bu i'r Cyngor dderbyn yr sylwadau. Trafodwyd creu Adroddiad Blynyddol ar frys er mwyn cyflwyno i'r Archwilydd Allanol a'i uwchlwytho ar wefan y Cyngor Tref. Y Cynghorwyr yn deall yr cynyddiad balans ac hwn i'w drafod ar ddiwedd y Pwyllgor er mwyn ei glustnodi.

**5. Cyfrifon 2021/22 – Derbyn yr Datganiad cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2021/2022.**

**Argymell**: Bu i'r Pwyllgor dderbyn cyfrifon 2021/22 a'r sylwadau, gyda'r Cynghorydd Alun Jones yn cynnig, a'r Cynghorydd Dafydd Dafis yn eilio.

6. **Cyfrifon – Diweddariad ar gyfrifon 2022/2023**

Bu i'r Pwyllgor edrych yn fanwl ar y cyfrifon i'r dyddiad. Bu iddynt dderbyn copi o bob adran o'r cyfrifon sydd ar y rhaglen Scribe sydd yn cadarnhau'r ffigyrau ac yn dangos pa ganran o'r gyllideb ar gyfer pob adran sydd wedi ei wario i'r dyddiad. Yn ogystal, derbynwyd Cysoniad Banc i'r dyddiad.

**Argymell**: Cafwyd fod y cyfrifon fod yn gywir ac argymhellwyd i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo.

7. **Clustnodi gweddillion ariannol y Cyngor Tref**

Trafodwyd balansau presennol y Cyngor Tref, yn dilyn sylwadau'r Archwiliad Mewnol, ac bu iddynt gytuno ar glustnodi'r balansau wrth gefn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Tanwariant dros ben ar 1af Ebrill 2022:** | **£ 194,976.01** |
| | |
| **I'w dyrannu fel a ganlyn:** | |
| **Cronfeydd wrth Gefn** | £115,000 (6 mis o'r praesept) |
| | |
| **Cronfeydd wedi'i glustnodi: (£79,976.01)** | |
| Caeau Chwarae (Parc Sglefrio, cae pel-droed ayyb) | £40,000 |
| Perllan Tan y Manod | £2,000 |
| Ysgoloriaeth Patagonia (pres dal nol 2 enillydd) | £500 |
| Blinds i ffenestri'r Siambr, Ganolfan | £300 |
| Pres Argyfwng | £10,000 |
| Prosiectau Cymunedol (e.e. pryderon costau byw) | £10,000 |
| Prynu System darlledu i'r Siambr | £5,500 |
| Cyfraniad at system gwresogi'r Ganolfan Gymdeithasol | £5,000 |
| Uwchraddio system CCTV y Cyngor Tref | £6,676.01 |
| **Cyfanswm Cronfa wedi'i glustnodi** | **£79,976.01** |
| AROL I'W GLUSTNODI: | £0 |

**Argymell**: Cytuniwyd ar symiau Cronfeydd wrth gefn cyffredinol a Chronfeydd wedi'i glustnodi.

Daeth y cyfarfod i ben ar 8:05yh.